**CYNGOR CYMUNED CYNWYL ELFED**
Cyfarfod a gynhaliwyd am 7.30 y.h. ar Nos Lun 20.04.2026
Yn Neuadd Cymdeithasol Cynwyl Elfed
**Yn Bresennol:** Cyng. Amy Evans (Cadair.), Cyng. Delme Phillips, Cyng. Elfed Davies, Cyng. Eifion Jones, Cyng. Aled Jones a'r Cyng.Julian Evans
**Clerc:** Enid Davies
**Cyfieithydd:** Hefin Jones
**Ymddiheuriadau:** Cyng. Bryan Davies a'r Cyng. Robin Bowen.

Croesawodd y Cyng. Amy Evans aelodau'r Cyngor a oedd yn bresennol i'r cyfarfod.

**01.Datgelu Buddianau Personol:**
Gofynnodd y Cadeirydd i aelodau'r Cyngor a oedd ganddynt unrhyw fuddiannau i'w datgan yn y busnes i'w drafod - dim.

**02. Cadarnhau Cofnodion Cyfarfodydd diwethaf.**
Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16.03.26 yn gopi cywir - cynigiwyd gan y Cyng. Aled Jones ac eiliwyd gan y Cyng. Julian Evans.

**03.Materion i'w hadrodd**
a. Materion Priffyrdd: - gweler o dan adroddiadau materion priffyrdd.
b. Cyfleusterau Cyhoeddus a Neuadd Cynwyl Elfed -.gweler o dan adroddiadau is-bwyllgorau.

**04.Gohebiaeth.**
*Nodir bod copïau o'r e perthnasol a dderbyniwyd yn cael eu hanfon at y cynghorwyr drwy e-byst.*
• Addewid Cwrteisi a Pharch: ffurflen wedi'i gwblhau - I'w danfon i Un Llais Cymru.
.• Un Llais Cymru-Cynhadledd Genedlaethol a Seremoni Wobrwyo 1/7/26 Llanelwedd-£99- Cynigiwyd bod y Cyng. B.D. i fynychu ar ran y Cyngor.
• Debra Jones - ynglûn â gwefan y Cyngor- Clerc i gysylltu ag Un Llais Cymru am eu cyngor.

**05.Cynllunio**
Ni dderbyniwyd ymgynghoriadau cynllunio newydd.
Eitemau Cynllunio byw - clerc wedi edrych ar y canlynol am ddiweddariadau newydd: PL/10013-Datblygiad preswyl - tir ger Surgeon Street-. Amser yr ymgynghoriad wedi ymestyn i 9/4/26 am fod rhai newidiadau wedi'u gwneud i'r cynlluniau- cysylltwyd ar adran cynllunio- mae pob sylw sydd wedi'u gwneud yn barod yn dal i sefyll a felly ni chymerwyd unrhyw gamau pellach.

**06.Taliadau a Chyllid**
**(a)Taliadau a Chyllid**

**Taliadau**

• ME Davies Cyflog y Clerc. 03/26 £309.90 yn daladwy 31.3.26
• HMRC 1/4 (4) 2025/26 £232.60
• Maria Thomas Mawrth 2026 £230.00
• Cyngor Sir Gâr Goleuadau Stryd. £1618.13
• Arwel Sharp Plwmer £ 293.57
• **Ebrill**
• EDF Trydan 01.03.26-31.03.26 £ 48.20
• Aelodaeth Un Llais Cymru £206.00.

*Cymeradwyodd y Cyngor y taliadau uchod.Cynigiwyd gan y Cyng. E.D. ac eiliwyd gan y Cyng. J.E.*

- Adnewyddu Polisi Yswiriant - Zurich -dod i ben ar 31.5.26 £673.69. Cynnigwyd gan Cyng. J.E. bod y Cyngor yn gwneud ymholiadau i gael gafael ar gwell piris am yr yswiriant er mwyn sicrhau'r gwerth gorau am yr arian. Eiliwyd gan y Cyng. D.P. -

Cyfarwyddodd y Cyngor y clerc i wneud hyn mewn da bryd cyn y cyfarfod nesaf.

-

***ADOLYGIAD - CYSONI DERBYNIADAU A THALIADAU***

Adolygwyd y cyfrifon hyd at 31 Mawrth 2026 gan y Cyng. Amy Evans a nodwyd eu bod yn ymddangos yn gywir.

**07.Materion Priffyrdd:**

***Materion Priffyrdd adroddwyd ar 16.03.26***

*b) Mae angen gwasanaeth bws drwy Hermon.*
*c) Dywedodd y Cyng. J.E. bod difrod wedi'i wneud I'r "water stop" gyda'r bws yn parcio ar y palmant yn SA33 6TL.   Dywedodd y Cyng.JE ei bod wedi Rhoi gwybod i  Dŵr Cymru.*
*d) Roedd y Cyng. BD wedi rhoi gwybod bydd gwaith fod cael ei wneud ar ffordd Cwm Hagar- Penfoel a bod peirianydd ffordd wedi gwneud gwaith assessi. Roedd yna hefyd cwyn wedi ei roi ymlaen ynghyd ar modd cafodd y gwter wrth ymyl y ffordd ei ddelio ag.*
*e) Esgair - Yn dilyn llifogydd mis Tachwedd diwethaf does dim wedi'i wneud i atal y sefyllfa rhag digwydd eto.*
*f) SA33 6EY - Mae nifer o dyllau yn y ffordd yn cynyddu ac yn lledanu.*
*g) Tro Mile End - Mae yna goeden yn pwyso yn erbyn llinell ffôn sy'n ei ddal i fyny.*
*h) Dywedodd y Cyng. EJ er bod y gwaith a wneir ar y fford yn Cwmduad yn dda, siom yw bod baw a malurion wedi'u gadael yn y man sefyll ger yr hen swyddfa bost.*
*i) Twll yn y ffordd rhwng Maudsland ac Heather View - wedi ei lenwi dros dro ond ddim yn digon da a mae'r twll yn dod i'r golwg eto. Mae angen ei atgyweirio'n iawn.*
*j) Pantwdog-Hermon—Mae gwyneb y ffordd wedi diriwio gyda llawer o dyllau.*
*k) SA33 6TL - tu allan i'r Blue Bell - 2 gwter yn dechrau cwympo.*
*l) Tipio anghyfreithlon rhwng Pump Heol a  Ty-coch.*
*m) B4333 arwydd o flaen Clydfan SA33 6SP - Arwydd wedi ei ddala lan gyda un postyn yn unig.*
*n) Cais yb holi am swyddog o'r Heddlu  i  ymweld.*
*o) Cynigiwyd gan y Cyng.. E.J. bod y Cyngor yn ysgrifennu at Prif Weithredwr Cyngor Sir Gâr ynghylch y penderfyniad I wario dros £42 miliwn ar ail wneud adeilad Debenhams yn nhre Caerfyrddin. Eiliwyd gan y Cyng. A.J.*

**08. Adroddiadau gan Is-Bwyllgorau a Sefydliadau**

- **Cyfleusterau Cyhoeddus:**
- Mae angen clirio'r ardal o amgylch y Mesurydd Dŵr er mwyn cael mynediad at y mesurydd a'i ddarllen. Y clerc i gysylltu â swyddog lleol Dŵr Cymru ynglŷn â gwneud y mesurydd dŵr yn fwy hygyrch.
- Dymunodd y Cyng. E.D. estyn diolch I'r Cyng. Julian Evans am either waith yn edrych dros y cyfleusterau ac hefyd am wneud gwaith glanhau ychwanegol a cynnal a chadw yno.
- **Cae Chwarae Bro Elfed:**
- Cynhalwyd Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y parc ar 25/03/26..Dywedodd y Cyng. Amy Evans ei bod wedi dechrau gwaith ar cais am grant,  mae angen ymgynghori yn lleol fel

rhan o'r broses. Bydd y Cyng. A. E. Yn ffurfio holiadur a holodd aelodau or Cyngor am help i ddarparu rhain.

**<u>Canolfan Cymdeithasol Cynwyl Elfed</u>**
Cynhalwyd Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ar 25/03/26 lle penderfynwyd i drefnu grwpiau o Glanhawyr Gwirfoddol ar y dydd Sadwrn cyntaf o bob mis er mwyn cefnogi gofalwyr y Neuadd.
Wefan - bydd hwn yn cael ei adael i bwyllgor y Neuadd i wneud penderfyniad.

## <u>09.Unrhyw Fater Arall.</u>

•*<u>Hyfforddiant - </u> Un Llais Cymru-ceisiadau am hyfforddiant gweminar am ddim - pedwar lle am ddim ar Gyfer pob modiwl gyda gostyngiad o 50% ar ôl defnyddio lleoedd am ddim*.

- Modiwl 24 - Pecyn Cymorth Cyllid a Llywodraethu -Cyng.A.E. a R.B. i fynychu.
- **<u>Hybysebu am clerc newydd.</u>** Mae'r clerc wedi ysgrifennu at Gadeirydd y Cyngor i ddweud ei bod hi'n gobeithio ymddiswyddo fel clerc yn y dyfodol agos ac yn gofyn os allai hi hysbysebu'r swydd. Dywedodd y clerc ei bod hi'n hapus yn ei swydd ond ei bod hi'n credu bod yr amser yn iawn i ddod o hyd i glerc newydd. Os na fydd ymgeiswyr cymwys ac os bydd angen mae'n hapus i weithio ochr yn ochr â chlerc newydd tra byddant yn ennill y cymwysterau priodol a bydd yn fodlon parhau fel Swyddog Ariannol Cyfrifol y Cyngor hyd nes bod y clerc newydd yn barod i gymryd drosodd y ddwy swydd.

**10<u>. Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf.</u>**
Cyfarfod nesaf ar: Nos Lun, **18 Mai 2026**
Y Cyfarfod Blynyddol **am: 7:00** yr hwyr
I'w dilyn gan y cyfarfod misol am**: 7:30** yr hwyr**.**

Daeth y cyfarfod i ben am 21.10 awr.

………………………………………………………………
Cyng. A. Evans (Cadeirydd)

………………………………………………………………
Dyddiad.